Mae'r geiriad yma'n fwy proffesiynol ac yn briodol ar gyfer lefel prifysgol. Fodd bynnag, mae'n dal angen i chi wirio'r hyn y mae'r offeryn wedi'i greu yn ofalus iawn i sicrhau:

- Nad oes unrhyw gamgymeriadau ac nad oes unrhyw ffeithiau neu wybodaeth newydd wedi'u hychwanegu sy'n anghywir neu nad ydynt wedi'u cynnwys yn eich nodiadau gwreiddiol
- Eich bod chi'n cytuno gyda'r testun.

Byddwch yn ofalus: Bydd Bing Chat yn rhoi cyfeirnodau i chi'n awtomatig ond nid yw'r rhain yn briodol ar gyfer lefel prifysgol, oherwydd maen nhw'n dod yn bennaf o Wikipedia a gwybodaeth ar y we nad yw wedi'i hadolygu gan gymheiriaid. Felly, peidiwch â defnyddio'r cyfeirnodau o Bing Chat yn eich gwaith. Rhaid i chi sicrhau mai eich cyfeirnodau chi eich hun o'r ymchwil a gyflawnwyd gennych yw'r cyfeirnodau y byddwch yn eu cynnwys.

Defnyddio Bard

Gadewch i ni roi cynnig ar yr un ymarfer gyda Bard, yn hytrach na Bing Chat. Yn union fel yr uchod, mae angen i chi wneud yr holl ymchwil yn ôl yr angen. Felly, mae angen i chi greu llyfryddiaeth, cyflawni'r darllen angenrheidiol, ystyried sut yr ydych chi'n dymuno ateb y cwestiwn, creu strwythur, ac ati.

Y cam nesaf yw ystyried yr hyn rydych chi am ei gynnwys ym mhob adran neu baragraff, yn ddelfrydol mewn pwyntiau bwled priodol.

Byddwn yn defnyddio'r un pwyntiau bwled a'r un anogwr.

Pwyntiau bwled:

- Dadl: Roedd Athen yn bwerus oherwydd roedd ganddi'r llynges fwyaf
- Roedd y byd Groegaidd wedi'i gysylltu gan y môr. Mae Plato'n dweud bod Groegiaid fel brogaod o gwmpas pwll
- Roedd gan bwy bynnag oedd yn rheoli'r môr bŵer dros wladwriaethau eraill.
- Gelynyon pennaf y Groegiaid oedd Persia a Charthag. Roedd gan y ddau lyngesau mawr
- Pa bynnag wladwriaeth Roegaidd oedd â'r llynges fwyaf, gallai amddiffyn yn erbyn Persia neu Garthag
- Roedd llynges Athen yn golygu bod gwladwriaethau llai eisiau bod yn gynghreiriaid er diogelwch

Anogwr: Please write up these bullet points as an essay paragraph at university level: EICH NODIADAU

Yr ymateb wrth Bard oedd:

"Athens' naval power was a key factor in its rise to power in the Greek world. The Greek world was interconnected by sea, and Plato famously compared the Greeks to frogs around a pond. Whoever controlled the sea had power over other polities. Athens' navy gave it the ability to project power throughout the Aegean Sea and beyond. Athens' greatest enemies were Persia and Carthage, both of which had large navies. Whoever had the largest navy in the Greek world could defend against Persia or Carthage and protect its own interests. Athens' navy gave it this advantage. In addition, Athens' navy made it attractive to smaller polities as an ally. Smaller polities could gain protection from Athens' navy in exchange for military and financial support. This gave Athens a network of allies throughout the Greek world, which further increased its power. Therefore, Athens' naval power was a key factor in its rise to power in the Greek world. It gave Athens the ability to project power throughout the Aegean Sea and beyond, defend against its enemies, and attract allies.

This argument can be supported by a number of historical examples. For example, in the Peloponnesian War, Athens' navy was instrumental in its victory over Sparta. Athens was able to blockade Sparta's coastline and prevent it from receiving supplies. This forced Sparta to sue for peace. Another example is the Athenian expedition to Sicily in 415-413 BC. This expedition was a disaster for Athens, but it highlights the importance of naval power in Athenian strategy. Athens hoped to use its navy to conquer Sicily and create a new empire. However, the expedition was

poorly planned and executed, and Athens' navy was eventually defeated. This defeat led to the collapse of the Athenian empire. These examples show that Athens' naval power was a key factor in its rise to power and its eventual downfall."

Mae Bard wedi darparu mwy o destun, a hefyd wedi ychwanegu ei enghreifftiau ei hun. **Mae hyn yn broblem!** Mae'r broblem yn ddeublyg:

1. Nid yw hyn yn rhan o'r wybodaeth yr oeddech chi am ei chynnwys yn y paragraff.
2. Mae'r wybodaeth yn anghywir! Os wnaethoch chi ymchwilio i'r pwnc, bydddech yn sylwi'n syth bod yr offeryn wedi ysgrifennu mai Athen enillodd Ryfel y Peloponesos; mewn gwirionedd, Sparta enillodd y rhyfel. Yn yr un modd, nododd yr offeryn mai gorchfygiad Athen yn Sisili oedd y prif reswm dros gwmp Ymerodraeth Athen; mae hyn hefyd yn anghywir.

Beth ddylech chi ei wneud?

- a. Gwiriwch yr hyn a ddarperir gan yr offeryn yn drylwyr bob amser! Mae'r offeryn i fod i'ch helpu wrth ysgrifennu, **nid** disodli'r ymchwil a'r gwaith rydych chi wedi'i wneud.
- b. Yn yr achos hwn, dylech ddefnyddio'r paragraff cyntaf (hyd at "*attract allies.*") a hepgor yr ail baragraff (o "*this argument...*").

Yr hyn y gallwch ei wneud: Llais i Drawsgrifad i Destun

Nid yw pawb yn gweithio'n dda gyda nodiadau, nac ychwaith wrth drosi nodiadau yn destun. Os yw'n well gennych siarad yn hytrach nag ysgrifennu, efallai y bydd hwn yn ateb da i chi er mwyn ysgrifennu traethodau gwell.

Gan nad yw ein dulliau siarad arferol yn trosglwyddo'n dda i arddulliau ysgrifennu ffurfiol neu broffesiynol, gallwch ddefnyddio AI i drawsnewid eich syniadau o'ch llais i destun.

Byddwn yn defnyddio'r un enghraifft ag uchod.

Cam 1: Llais i Drawsgrifad

Ffordd hawdd o ddefnyddio trawsgrifio llais yw trwy **Microsoft TEAMS**. Gallwch gyrchu hyn trwy eich pecyn Microsoft yn y brifysgol.

1. Ewch i'ch Calendr ar Microsoft TEAMS.
2. Cliciwch ar Cwrdd Nawr
3. Dechreuwch y cyfarfod
4. Ymunwch â'r cyfarfod
5. Peidiwch â gwahodd unrhyw un
6. Cliciwch ar Mwy (y tri smotyn)
7. Cliciwch ar Recordio a Thrawsgrifo
8. Dechreuwch drawsgrifio

Pan fyddwch wedi gorffen, stopiwch y trawsgrifio a chopiwch a gludwch y trawsgrifiad. Os hoffech allu cyrchu'r trawsgrifiad yn ddiweddarach, mae'n well i chi roi cyfarfod yn y calendr yn hytrach na defnyddio'r swyddogaeth Cwrdd Nawr.

Os ydych yn defnyddio **Microsoft Word**, gallwch hefyd ddefnyddio'r swyddogaeth Arddweud neu'r swyddogaeth Trawsgrifo i recordio'r hyn rydych chi'n ei ddweud ar ffurf testun.

I gael rhagor o wybodaeth:

[Dictate your documents in Word - Microsoft Support](#)

[Transcribe your recordings - Microsoft Support](#)

Cam 2: Trawsgrifiad i Destun

Nid yw cyfathrebu llafar, yn enwedig cyfathrebu llafar anffurfiol, yn gwneud llawer o synnwyr ar ffurf testun.

Dyma drawsgrifiad enghreifftiol:

"Well, the main argument is that Athen was pretty strong 'cause it had the biggest. Of of navies in. The Greek world. As the great work connected by C. That was actually pretty important. Plato says that Greeks were like frogs around the pond. Yeah, so whoever managed to have the biggest Navy or, you know, control of the sea, then that that that. State had. Control. Pretty much over what any other state did, but I see. So. That meant that if Athens had the the biggest Navy, then a lot of the sort of smaller states. Would try to be allies with Athens because right then the Athenian Navy would give them protection. Now that mainly was. Very important because. Of. Persia and Carthage? Nate Persia was like the biggest empire. In the nearest. And Carthage was the. Biggest state. In in the western part of the Mediterranean? Yeah, and. For the Greeks, right, the the biggest enemies, the biggest. Threats were Persia in the east and Carthage in the West, right. So whatever Greek state had the biggest Navy, then it had the best chance to defend against. These bigger non Greek kind of navies."

Mae'r prif syniadau yma, ond yn sicr nid yw'r testun yn briodol ar gyfer traethawd.

Gall offeryn AI drawsnewid y llif ymwybod hwn yn destun cydlynol yn hawdd.

Byddwn yn defnyddio Bard a'r anogwr canlynol:

Anogwr

Please make this transcript into coherent text: EICH TRAWSGRIFIAD

Ymateb Bard oedd y testun canlynol:

"The main argument is that Athens was powerful because it had the largest navy in the Greek world. The Greek world was interconnected by the sea, and Plato famously compared the Greeks to frogs around a pond. Whoever controlled the sea had control over the other states. This meant that if Athens had the largest navy, then many of the smaller states would try to be allies with Athens for protection. This was especially important because of the threats posed by Persia and Carthage. Persia was the largest empire in the Near East, and Carthage was the largest state in the western Mediterranean. For the Greeks, the biggest enemies were Persia in the east and Carthage in the west. Whoever had the largest navy had the best chance to defend against these larger non-Greek navies."

Beth wnaeth Bard? Cafodd Bard wared ar eiriau llanw ac ailadrodd diangen. Hefyd, cywirodd wallau gramadeg a sillafu a gwneud yr iaith yn fwy cryno a chlir. Ar ben hynny, ychwanegodd bontydd rhwng brawddegau a pharagraffau i wneud i'r testun lifo'n fwy llyfn.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn dal ar y lefel gywir ar gyfer gwaith prifysgol. Gall ychydig yn fwy o annog wneud i'r testun hwn swnio'n fwy proffesiynol.

Anogwr

Can you rewrite the text so that it sounds more professional?

Ymateb Bard oedd:

"Athens' naval supremacy was a key factor in its power in the Greek world. The Greek world was a maritime realm, and Plato famously likened the Greeks to frogs around a pond. Control of the sea conferred dominion over other states. Therefore, Athens' superior navy attracted smaller polities as allies, seeking protection from the Athenian fleet. This was especially important in light of the threats posed by Persia and Carthage, the two largest empires in the Near East and western Mediterranean, respectively. For the Greeks, Persia in the east and Carthage in the west were the greatest threats. The Greek state with the largest navy had the best chance of defending against these larger non-Greek fleets."

Mae hyn yn swnio'n llawer gwell.

Beth wnaeth Bard? Defnyddiodd Bard iaith fwy ffurfiol, fel "*supremacy*," "*dominion*," "*polities*," "*fleet*," ac "*empires*." Cafodd wared ar dalfyriadau ac ymadroddion anffurfiol, fel "*pretty much*" a "*for protection*." Hefyd, ychwanegodd eirfa fwy manwl gywir a soffistigedig, fel "*maritime realm*," "*conferring*," "*dominion*," "*respectively*," a "*defending*." Ar ben hynny, gwellodd strwythur a llif y brawddegau, ychwanegodd bontydd rhwng brawddegau a pharagraffau, ac adolygodd y tôn cyffredinol i fod yn fwy academaidd a gwrthrychol.

Cofiwch bob amser gadw copi o'ch drafftiau, eich nodiadau ac adnoddau eraill a ddefnyddiwyd gennych, cyn ac ar ôl defnyddio offer AI. Os oes amheuaeth o ddefnyddio offer AI y tu hwnt i'r hyn a bennwyd ar gyfer yr aseiniad penodol, gofynnir i chi ddarparu drafftiau blaenorol a nodiadau.

RHAGLENNU gyda Deallusrwydd Artiffisial: Canllaw

Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) Cynhyrchiol i greu cod i'w gyflwyno.

Mae angen tryloywder.

Pan ddefnyddir AI cynhyrchiol i gynhyrchu cod ar gyfer gwaith a asesir, rhaid i chi fod yn benodol ynghylch yr hyn a gynhyrchwyd gan yr AI, pa newidiadau y gwnaethoch chi iddo, a'r hyn yr ysgrifennoch eich hun. Dylech wneud hyn gan ddefnyddio sylwadau mewnol yn y cod, gan ddefnyddio'r nodiant priodol ar gyfer yr iaith raglennu rydych chi'n ei defnyddio. Yn yr un modd â defnyddio cod o ffynonellau allanol eraill (gwrslyfrau, storfeydd GitHub, gorlif stac ac ati), ni ddylid fod unrhyw amheuaeth ym meddwl y marciwr ynghylch pa rannau o'r gwaith a gwblhawyd gennych chi a pha rannau a gynhyrchwyd gan AI cynhyrchiol.

Gall darlithwyr roi canllawiau manylach.

Mewn rhai achosion, gall darlithwyr eich caniatáu chi i ddefnyddio AI cynhyrchiol i ddatrys problemau mwy cymhleth. Byddant yn cyfathrebu â chi os yw hyn yn wir. Dylai'r ddogfen hon weithredu fel y drefn ragosodedig, y gall darlithwyr ei disodli. Os ydych byth yn aneglur ynghylch beth sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol ar gyfer aseiniad penodol, gofynnwch i'ch darlithydd modwl am gymorth penodol.

Efallai y gwelwch ar ddechrau eich addysg raglennu nad ydych yn gallu gwneud defnydd da o AI cynhyrchiol oherwydd bod y problemau rydych chi'n eu datrys yn gyfatebol syml ac efallai mai dim ond eu distadlu y byddwch wrth ddefnyddio AI. Wrth i chi wneud cynnydd, byddwch yn datrys problemau mwy o faint a bydd yn dod yn fwy priodol i ddefnyddio AI cynhyrchiol i gynhyrchu cod parod neu i ddatrys is-broblemau llai.

AI Cynhyrchiol o fewn Amgylcheddau Datblygu Integredig

Mae'r canllaw hwn yr un mor berthnasol i AI cynhyrchiol a yrrir gan ymholiadau, fel ChatGPT a Bard, ag y mae i AI cynhyrchiol "awtogwblhau" o fewn amgylchedd datblygu integredig (IDE), fel GitHub Co-pilot, Tabnine neu IntelliCode. Yn y naill achos, dylech ddefnyddio'r offer hyn yn bwylllog ac yn ofalus. Mae torri'r polisi hwn yn ddamweiniol drwy ddefnyddio AI cynhyrchiol awtogwblhau neu offeryn tebyg yn dal i gyfrif fel camymddwyn academiaidd.

Yr hyn na allwch ei wneud

Ni allwch a rhaid i chi beidio ag annog offeryn AI i ysgrifennu cod ar bwnc eich aseiniad. Os byddwn yn tybio mai eich tasg yw creu peiriant graffeg OpenGL yn C++.

Ni allwch a rhaid i chi beidio â mewnbynnu anogwr fel hyn i offeryn AI:

- *Write an OpenGL graphics engine in C++.*
- *Give examples of OpenGL graphics engines in C++ with an explanation.*

Os byddwch chi'n gwneud hyn, ni fydd y cod yn eiddo i chi mwyach. Os byddwch yn cyflwyno gwaith nad yw'n eiddo i chi, byddwch yn cyflawni **camymddwyn academiaidd**, sydd â chosbau difrifol.

Byddwch yn ei chael hi'n anodd defnyddio AI cynhyrchiol ar gyfer problemau syml iawn heb ddistadlu'r broblem honno a bod mewn perygl o gyflawni camymddwyn academiaidd.

Yr hyn y gallwch ei wneud: Gofyn cwestiynau i archwilio'r broblem.

Gallwch ofyn cwestiynau penodol i AI cynhyrchiol sy'n llywio datblygiad eich cod, neu sy'n cynorthwyo eich dealltwriaeth o'r pwnc. Er enghraifft:

- *Why is it bad to block the event loop?*
- *Why do GPUs work so effectively with triangles?*
- *How do I multiply a 4x4 matrix?*
- *How do I calculate the determinant of a matrix?*

Mae'r mathau hyn o gwestiynau'n wastad yn dderbyniol oherwydd nid ydynt yn cynhyrchu unrhyw god ond maen nhw'n egluro cysyniadau a fydd yn llywio eich datblygiad. Ni fydd y mathau hyn o gwestiynau fel arfer yn rhoi atebion y tu hwnt i alluoedd peiriant chwilio ond gallant alluogi trafodaeth gyd-destunol fwy treiddgar.

Yr hyn y gallwch ei wneud: Pytiau

Gan gyd-fynd ag arferion rhaglennu cyffredin, gall fod yn briodol annog AI cynhyrchiol am bytiau bach o god. Yn yr enghraifft flaenorol, gallai hyn fod er mwyn cynhyrchu cod parod, e.e.:

- *Write a C++ class with three integer attributes: x, y and z. Create getters and setters for them.*

Fodd bynnag, o fewn cwmpas yr enghraifft, **ni fyddai** anogwr fel hwn yn dderbyniol:

- *Write a 3D vector class in C++ including dot and cross product.*

Mae'n briodol defnyddio AI cynhyrchiol i gynhyrchu cod parod, neu i gynhyrchu atebion i is-broblemau distadl. Dylech osgoi defnyddio AI cynhyrchiol i ddistadlu cydrannau sylweddol o'r gwaith y gofynnwyd i chi ei gyflawni.

Ar adegau, gall fod yn anodd gwahaniaethu, felly dylech ofyn i'ch darlithydd bob amser os ydych yn ansicr.

Yr hyn y gallwch ei wneud: Dadfygio

Mae sawl offeryn dadfygio AI bellach ar gael, sy'n gallu canfod gwallau mewn cod a gwneud awgrymiadau ar gyfer eu datrys. Gellir cymharu'r offer hyn yn fras ag offer dadansoddi cod statig, ac fe'u caniateir – fodd bynnag, eto rhaid i chi fod yn dryloyw ynghylch eu defnydd.

Enghraifft

Gan gyfuno'r uchod, os oeddem am greu dosbarth fector fel cydran o'n peiriant graffeg, gallem annog ein peiriant AI fel a ganlyn:

> Write a C++ class with three integer attributes: x, y and z. Create getters and setters for them.

Mae'r offeryn AI cynhyrchiol yn ymateb:

Yes, here is a C++ class with three integer attributes: x, y, and z, and getters and setters for them:

```
C++
#include <iostream>

class Point {
private:
    int x;
    int y;
    int z;

public:
    Point(int x, int y, int z) {
        this->x = x;
        this->y = y;
        this->z = z;
```

```

    }

    int GetX() const {
        return x;
    }

    void SetX(int x) {
        this->x = x;
    }

    int GetY() const {
        return y;
    }

    void SetY(int y) {
        this->y = y;
    }

    int GetZ() const {
        return z;
    }

    void SetZ(int z) {
        this->z = z;
    }

    void Print() const {
        std::cout << "Point: (" << x << ", " << y << ", " << z << ")" << std::endl;
    }
};

int main() {
    Point point(1, 2, 3);
    point.Print();

    point.SetX(4);
    point.SetY(5);
    point.SetZ(6);
    point.Print();

    return 0;
}

```

Use code with caution. [Learn more](#)

This code will create a Point object with coordinates (1, 2, 3), print it to the console, and then change the coordinates to (4, 5, 6) and print it again.

Dylem nawr nodi nad ein gwaith gwreiddiol ni yw hwn trwy ychwanegu sylw mewnol ar frig y ffeil. Yn yr achos hwn:

//Crëwyd y cod parod ar gyfer y dosbarth hwn drwy AI cynhyrchiol (Bard). Yn benodol, cynhyrchwyd strwythur y dosbarth, priodoleddau x, y a z, eu 'getters' a 'setters', yr adeiladwr a'r dull argraffu yn y modd hwn.

Ar ôl distadlu rhywfaint o'r cod parod gydag AI cynhyrchiol, gallwn wedyn ychwanegu'r ymarferoldeb mwy datblygedig â llaw ein hunain. Yn yr achos hwn, byddaf yn ailenwi'r dosbarth, yn gwahanu'r pennawd ac yn ychwanegu dull cynnyrch dot a chroes. Gallwn ysgrifennu cod fel:

```
Vector Vector::CrossProduct(Vector sV)
{
    Vector nV;
    nV.SetX(GetY() * sV.GetZ() - GetZ() * sV.GetY());
    nV.SetY(GetZ() * sV.GetX() - GetX() * sV.GetZ());
    nV.SetZ(GetX() * sV.GetY() - GetY() * sV.GetX());
    return nV;
}

int Vector::DotProduct(Vector sV)
{
    return GetX() * sV.GetX() + GetY() * sV.GetY() + GetZ() * sV.GetZ();
}
```

Then update the comment:

```
// Crëwyd y cod parod ar gyfer y dosbarth hwn drwy AI cynhyrchiol (Bard). Yn
benodol, cynhyrchwyd strwythur y dosbarth, priodoledau x, y a z, eu 'getters' a
'setters', yr adeiladwr a'r dull argraffu yn y modd hwn.
//Crëwyd y dulliau cynnyrch dot a chroes o'r newydd heb ddefnyddio AI
cynhyrchiol.
```

Gan roi gweithrediad terfynol o'r dosbarth hwn fel:

```
Vector.h
#pragma once

// Crëwyd y cod parod ar gyfer y dosbarth hwn drwy AI cynhyrchiol (Bard). Yn
benodol, cynhyrchwyd strwythur y dosbarth, priodoledau x, y a z, eu 'getters' a
'setters', yr adeiladwr a'r dull argraffu yn y modd hwn.
//Crëwyd y dulliau cynnyrch dot a chroes o'r newydd heb ddefnyddio AI cynhyrchiol.

#include <iostream>

class Vector
{
private:
    int x;
    int y;
    int z;

public:
    Vector();
    Vector(int x, int y, int z);

    int GetX() const;
```

```

int GetY() const;
int GetZ() const;

void SetX(int x);
void SetY(int y);
void SetZ(int z);

void Print() const;

Vector CrossProduct(Vector sV);
int DotProduct(Vector sV);
};

```

Vector.cpp

```

#include "Vector.h"

Vector::Vector(){
    this->x = 0;
    this->y = 0;
    this->z = 0;
}

Vector::Vector(int x, int y, int z) {
    this->x = x;
    this->y = y;
    this->z = z;
}

int Vector::GetX() const {
    return x;
}

void Vector::SetX(int x) {
    this->x = x;
}

int Vector::GetY() const {
    return y;
}

void Vector::SetY(int y) {
    this->y = y;
}

int Vector::GetZ() const {
    return z;
}

void Vector::SetZ(int z) {
    this->z = z;
}

void Vector::Print() const {
    std::cout << "Point: (" << x << ", " << y << ", " << z << ")" << std::endl;
}

```

```

Vector Vector::CrossProduct(Vector sV) {
    Vector nV;
    nV.SetX(GetY() * sV.GetZ() - GetZ() * sV.GetY());
    nV.SetY(GetZ() * sV.GetX() - GetX() * sV.GetZ());
    nV.SetZ(GetX() * sV.GetY() - GetY() * sV.GetX());
    return nV;
}

int Vector::DotProduct(Vector sV) {
    return GetX() * sV.GetX() + GetY() * sV.GetY() + GetZ() * sV.GetZ();
}

```

Mae hyn yn dderbyniol oherwydd:

- ✓ Mae'n defnyddio AI cynhyrchiol i gynhyrchu cod parod, nid i ddatrys problemau cymhleth.
- ✓ Mae'n defnyddio gweithrediad AI cynhyrchiol i ychwanegu ymarferoldeb ystyriol.
- ✓ Mae'n gwbl dryloyw ynghylch yr hyn y defnyddiwyd AI cynhyrchiol i'w wneud, a'r hyn a gynhyrchwyd gan y datblygwr dynol.

Y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) yn y meysydd pwnc creadigol

Trosolwg

Yn hanesyddol, mae technoleg newydd yn darparu cyfleoedd. Mae'r wasg argraffu, y daguerreotype, recordio sain, recordio ffilmiau, technoleg cyfrifiadurol a'r rhyngwrdd i gyd wedi bod yn sianel i ddatblygiad diwylliannol a chreadigol ac wedi trawsnewid cymdeithas mewn llawer o ffyrdd cadarnhaol. Mae AI yn rhan ganolog o'r chwildro technolegol cyfredol rydym yn ei brofi, felly mae'n bwysig, ac arwyddocaol, ein bod fel prifysgol yn croesawu'r datblygiadau hyn yn foesebol a chadarnhaol, gydag eglurder, pwrpas a chreadigrwydd.

Beth yw AI mewn amgylchedd celf a dylunio?


Systemau seiliedig ar beiriannau yw Deallusrwydd Artiffisial (AI) sy'n gallu, drwy roi iddynt set o amcanion diffiniedig, gwneud rhagfynegiadau, argymhellion neu benderfyniadau sy'n dylanwadu ar amgylcheddau real neu rithwir. (Cyngor Ewrop, 2022) Mewn perthynas â'r meysydd pwnc creadigol, mae AI yn dechnoleg trawsnewidiol sydd â'r potensial i newid neu addasu'r ffordd rydym yn dychmygu, creu, cynhyrchu a rhannu pob math o arteffactau (testun, dialog, llais, delwedd, ffotograffiaeth, cefndiroedd, cerddoriaeth, dyluniadau sain, fideo, animeiddiad, dylunio cynnyrch, ffasiwn, patrwm, pensaernïaeth, gwrthrychau tri dimensiwn a chodio cyfrifiadurol). Mae PCYDDS yn cefnogi myfyrwyr a staff yn weithredol i ymchwilio, arbrofi ac arloesi gydag AI cynhyrchiol ym mhob pwnc creadigol (Russell Group, 2024). Mae llythrennedd AI yn sgil hanfodol ar gyfer y dyfodol, ac mae'n datblygu ac yn newid ar gyfradd gyflymach a chyflymach, felly mae'n bwysig bod canllaw clir ar gael ar sut i'w ddefnyddio'n foesebol ar gyfer pynciau creadigol mewn amgylchedd academiaidd. Mae AI yn darparu cyfleoedd rhagorol yn y celfyddydau, ond mae'n rhaid sicrhau na fydd myfyrwyr yn cyflwyno gwaith i'w asesu sydd wedi'i gynhyrchu'n llwyr trwy'r broses hon ac yna yn ei gyflwyno fel eu gwaith eu hunain.

Beth y dylai'r myfyriwr ei wneud wrth ddefnyddio AI yn rhan o'r broses creadigol:

Dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol na all defnyddio AI gymryd lle datblygu sgiliau, dysgu gweithredol a gwaith proses traddodiadol.

- Yn yr achos gyntaf, rhaid i fyfyrwyr drafod y defnydd a'r gweithrediad o AI mewn prosiectau gyda'r Arweinydd Modwl. Mae defnyddio AI mewn unrhyw brosiect neu unrhyw ran o brosiect ar ddisgresiwn yr Arweinydd Modwl.
- Caniateir i fyfyrwyr ddefnyddio offer o safon diwydiant sy'n defnyddio technoleg AI, fel y rheiny sydd yn *Adobe Creative Cloud*, yn rhan o'u llif gwaith golygu digidol. Nid oes angen i fyfyrwyr gyfeirnod i'r defnydd hwn wrth ddefnyddio'r offer hyn i wneud addasiadau bach i'w delweddau eu hunain.
- Mae'n rhaid cofnodi'r holl ymyrraeth AI yn glir mewn unrhyw ran o'r broses creadigol lle defnyddwyd AI. Rhaid i hyn gynnwys y rhaglen(ni) neu ap(iau) y cafodd ei gynhyrchu ynddynt, y promptiau a ddefnyddiwyd (boed yn lluniau, testun neu ddata), a'r dyddiad y gwnaed hyn.
- Cyngorir myfyrwyr bod unrhyw waith a gynhyrchwyd gan AI a ddefnyddir, dyfeisir neu addasir yn rhan o'r broses ddatblygu, yn cael ei nodi'n glir trwy gydnabyddiaeth addas.

Er enghraifft:



Adobe Firely (2024). *Ymateb testun i ddelwedd Firefly i brompt Tom i 'greu llyn llonydd yn adlewyrchu golau'r lloer mewn tirwedd rewlyd ddiffaith'*. [Cynhyrchwyd 19.03.24]

- Os nad yw cyfraniad gan AI wedi'i gydnabod, dylai myfyrwyr sicrhau ei fod yn gwbl amlwg bod yr holl waith yn eiddo iddyn nhw.
- Caniateir i fyfyrwyr ddadansoddi'r defnydd o AI yn eu proses ymchwil, datblygu cynnwys, a chreadigol.
- Gall myfyrwyr ddatblygu dealltwriaeth o sut i integreiddio AI yn effeithiol ac yn foesegol, yn ffordd o gynorthwyo eu harfer, ond nid yn lle'r gwaith a grëir ganddyn nhw eu hunain, gan artistiaid neu gan ddylunwyr.
- Dylai myfyrwyr fod yn ystyriol o ragfarn wrth greu cynnwys sy'n deillio o AI, a rheoli ei fynychder, ac fe ddylent ddangos ymwybyddiaeth o'r rôl y byddai hyn yn gallu ei chwarae wrth ddarlunio rhagfarn a hyrwyddo stereoteipiau yn seiliedig ar ryw, dosbarth, hil, rôl, crefydd, hunaniaeth, a chyfeiriadedd rhywiol. Dylid cyflwyno unrhyw gynnwys sy'n deillio o AI gydag ymwybyddiaeth feirniadol briodol.
- Wrth bromptio offer AI, fe ddylai myfyrwyr geisio hyrwyddo a meithrin deilliannau amrywiol a chynhwysol.
- Dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol o effaith amgylcheddol negyddol AI, o ganlyniad i faint o egni a ddefnyddir gan systemau AI.
- Gall myfyriwr gyflwyno dymuniad i gynnig eithriad i'r canllawiau uchod yn ysgrifenedig, gyda'u bwriad a'u deilliannau wedi'u hegluro a'u dogfennu'n glir. Ym mhob achos, rhaid i'r Arweinydd Modwl gymeradwyo eithriadau cyn eu rhoi ar waith.
- Dylai myfyrwyr fod yn dryloyw bob amser am bob agwedd ar eu proses a'u deilliannau, i osgoi unrhyw gamddechongli posibl.

Beth na all y myfyriwr ei wneud wrth ddefnyddio AI yn rhan o'r broses greadigol:

Mae defnyddio deilliannau a gynhyrchir gan AI heb nodi mai dyna ydyn nhw, yn gamymddwyn academiaidd.

- Ni chaniateir i fyfyrwyr gynnwys na chyflwyno unrhyw ased neu ddeiliant a gynhyrchir gan AI fel eu rhai eu hunain. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, destun, dialog, llais, delweddaeth, ffotograffiaeth, cerddoriaeth, dylunio sain, fideo, animeiddio, dylunio cynnyrch, patrwm, ffasiwn, pensaernïaeth, arteffactau, gwrthrych tri dimensiwn neu god cyfrifiadurol.
- Ni chaniateir i fyfyrwyr weithredu ymdrech artistig AI sy'n ceisio efelychu arferion presennol gan nad yw hyn yn cael ei ystyried yn waith myfyriwr dilys. Felly, ni ellir cyflwyno deilliannau terfynol a grëwyd drwy ofyn i AI efelychu gwaith ymarferydd arall oni bai ei fod yn arwyddocaol yn gysyniadol i'r prosiect.
- I amddiffyn awduraeth a chynnal dilysrwydd, ni chaniateir i fyfyrwyr defnyddio enwau artistiaid/dylunwyr, gwaith celf, cwmnïau, neu frandiau o fewn unrhyw bromptiau AI. Diben hyn yw cynnal unplygrwydd artistig, hawlfraint, ac eiddo deallusol y rheiny sy'n rhan ohono.

Sut i nodi eich defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial

Mae'r canllaw hwn ar gyfer myfyrwyr a staff i gefnogi integreiddio offer deallusrwydd artiffisial mewn asesiadau.

Mae pob manyleb asesu yn nodi defnydd a **ganiateir** o ddeallusrwydd artiffisial yn yr asesiad hwn. Dylech chi allu weld fersiwn o'r tabl isod:

YMCHWILIO	Ar gyfer yr aseiniad hwn, gallwch ddefnyddio AI Cynhyrchiol i roi cymorth i chi mewn ymchwil a dadansoddi data.	Ydy ☐ Nac ydy ☐
STRWYTHUR	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial i'ch cefnogi wrth strwythuro eich cyflwyniad, gan gynnwys creu strwythur dadl drafft, nodi rhannau a phenawdau ac ati.	Ydy ☐ Nac ydy ☐
PRAWFDDARLLEN	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio AI Cynhyrchiol i wirio eich testun/creadigaeth eich hun am wallau gramadegol a chystrawennol, yn cynnwys aralleirio eich gwaith.	Ydy ☐ Nac ydy ☐
YSGRIFENNU	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i greu testun i'w gyflwyno.	Ydy ☐ Nac ydy ☐
CREADIGOL	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i greu deunyddiau creadigol megis delweddau.	Ydy ☐ Nac ydy ☐
RHAGLENNU	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i greu a gwirio cod.	Ydy ☐ Nac ydy ☐
DIM	Ar gyfer yr asesiad hwn ni chaniateir i chi ddefnyddio unrhyw fath o gymorth Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol. Mae hyn yn cynnwys cymorth ymchwilio, cymorth strwythur, cymorth ysgrifennu/prawfddarlennu a chymorth creadigol.	Ydy ☐ Nac ydy ☐

Bydd y canllaw hwn yn eich darparu gyda'r wybodaeth angenrheidiol ar sut i gydnabod eich defnydd o ddeallusrwydd artiffisial mewn unrhyw asesiad.

Pwysig: Disgwylir i fyfyrwyr gadw drafftiau o'u gwaith, gan gynnwys nodiadau ac ati, cyn ac ar ôl defnyddio unrhyw offer deallusrwydd artiffisial. Disgwylir i fyfyrwyr ddangos y drafftiau a'r deunyddiau hyn yn ôl yr angen.

Disgwylir i chi ddefnyddio'r fformat cydnabyddiaeth hwn ar gyfer **pob** defnydd o ddeallusrwydd artiffisial a ganiateir.

Disgwylir i chi gynnwys y gydnabyddiaeth hon ar dudalen ar wahân ar ddechrau eich cyflwyniad.

Fformat Cydnabyddiaeth Sylfaenol o ddefnydd offeryn deallusrwydd artiffisial

Rwy'n cydnabod y defnydd o [Offeryn deallusrwydd artiffisial] (url yr offeryn deallusrwydd artiffisial) ar [Dyddiad] i [Diben fy ngwaith]. Defnyddiais yr anogwr(wyr):

1. [Anogwr]
2. [Anogwr]
3. [Anogwr]

Rwy'n cadarnhau nad ydw i wedi cyflwyno unrhyw destun deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol fel fy ngwaith fy hun. Rwy'n cadarnhau bod gennyf gopïau o'm drafftiau, fy nodiadau, ac unrhyw adnoddau eraill y defnyddiais cyn ac ar ôl defnyddio offer deallusrwydd artiffisial y gallir gofyn i mi eu darparu fel tystiolaeth.

Enghraifft 1:

Rwy'n cydnabod y defnydd o Grammarly (<https://www.grammarly.com/>) ar 10 Chwefror 2024 i wirio fy ngwaith gan ddefnyddio anogwr(wyr):

1. Gwiriwch y testun canlynol ar gyfer darllenadwyedd, gramadeg a chystawen.

Rwy'n cadarnhau nad ydw i wedi cyflwyno unrhyw destun a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial fel fy ngwaith fy hun. Rwy'n cadarnhau bod gennyf gopïau o'm drafftiau, fy nodiadau ac unrhyw adnoddau eraill y defnyddiais cyn ac ar ôl defnyddio offer deallusrwydd artiffisial y gallir gofyn i mi eu darparu fel tystiolaeth.

Enghraifft 2:

Rwy'n cydnabod y defnydd o SciSpace (<https://typeset.io/>) ar 7 Mawrth 2024 i gefnogi fy ymchwil gan ddefnyddio'r anogwr(wyr):

1. Rhewch ddeunyddiau i mi ar fioleg yr afu.
2. Rhewch ddeunyddiau i mi ar gelloedd yr afu.

Rwy'n cadarnhau nad ydw i wedi cyflwyno unrhyw destun a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial fel fy ngwaith fy hun. Rwy'n cadarnhau bod gennyf gopïau o'm drafftiau, fy nodiadau ac unrhyw adnoddau eraill y defnyddiais cyn ac ar ôl defnyddio offer deallusrwydd artiffisial y gallir gofyn i mi eu darparu fel tystiolaeth.

Enghraifft 3:

Rwy'n cydnabod y defnydd o ChatGPT (<https://chatgpt.com/>) ar 13 Ebrill 2024 i ysgrifennu fy nodiau'n fformat cyflwyno gan ddefnyddio'r anogwr(wyr):

1. Ysgrifennwch y pwyntiau bwled hyn fel paragraff traethawd ar lefel prifysgol.

Rwy'n cadarnhau nad ydw i wedi cyflwyno unrhyw destun a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial fel fy ngwaith fy hun. Rwy'n cadarnhau bod gennyf gopïau o'm drafftiau, fy nodiadau ac unrhyw adnoddau eraill y defnyddiais cyn ac ar ôl defnyddio offer deallusrwydd artiffisial y gellir gofyn i mi eu darparu fel tystiolaeth.

Cydnabod y defnydd o offer deallusrwydd artiffisial lluosog

Os ydych wedi defnyddio offer deallusrwydd artiffisial lluosog, bydd angen i chi gynnwys cydnabyddiaeth ar gyfer pob offeryn rydych chi wedi'u defnyddio.

Enghraifft 4:

Rwy'n cydnabod y defnydd o SciSpace (<https://typeset.io/>) ar 28 Mehefin 2024 i gefnogi fy ymchwil gan ddefnyddio anogwr(wyr):

1. Rhowch ddeunyddiau i fi ar Ryfel Cartref America.
2. Rhowch ddeunyddiau i mi ar yr ymateb i Gone with the Wind.

Rwy'n cadarnhau nad ydw i wedi cyflwyno unrhyw destun a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial fel fy ngwaith fy hun. Rwy'n cadarnhau bod gennyf gopïau o'm drafftiau, fy nodiadau ac unrhyw adnoddau eraill y defnyddiais cyn ac ar ôl defnyddio offer deallusrwydd artiffisial y gellir gofyn i mi eu darparu fel tystiolaeth.

Rwy'n cydnabod y defnydd o Adobe Express (<https://www.adobe.com/express/>) ar 24 Mehefin 2024 i olygu deunydd ffotograffig:

1. Tynnu cefndir o Ffigur 1.

Rwy'n cadarnhau nad ydw i wedi cyflwyno unrhyw destun a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial fel fy ngwaith fy hun. Rwy'n cadarnhau bod gennyf gopïau o'm drafftiau, fy nodiadau ac unrhyw adnoddau eraill y defnyddiais cyn ac ar ôl defnyddio offer deallusrwydd artiffisial y gellir gofyn i mi eu darparu fel tystiolaeth

Os nad ydych chi wedi defnyddio offer deallusrwydd artiffisial

Os nad ydych chi wedi defnyddio offer deallusrwydd artiffisial, p'un ai ni chaniateir iddo gael ei ddefnyddio neu oherwydd i chi ddewis peidio â defnyddio offer deallusrwydd artiffisial o gwbl, bydd angen i chi gynnwys y gydnabyddiaeth ganlynol.

Rwy'n cadarnhau nad wyf wedi defnyddio unrhyw offer AI wrth ymchwilio a chreu'r aseiniad hwn. Rwy'n cadarnhau nad wyf wedi cyflwyno unrhyw ddeunyddiau a gynhyrchwyd gan AI fel fy ngwaith fy hun. Rwy'n cadarnhau bod gennyf gopïau o'm drafftiau, fy nodiadau, ac adnoddau eraill a ddefnyddiais, y gellir gofyn i mi eu darparu fel tystiolaeth.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David